**Y Pwyllgor Busnes** **BC72-02(Terfynol)**

**COFNODION CYFARFOD**

**Dyddiad:** 26 Chwefror 2002
**Amser:** 9 a.m.
**Lleoliad:** Ystafell A3.13

**Yn bresennol:** John Marek, Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Andrew Davies, Trefnydd y Cynulliad
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
Jonathan Morgan, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr
Kirsty Williams, Rheolwr Busnes y Democratiaid Rhyddfrydol
Paul Silk, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Cynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau (eitem 6 ar yr agenda)
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Uned Busnes y Cynulliad
Marc Wyn Jones, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, Ysgrifennydd Preifat y Dirprwy Lywydd
Andrew Weeks, Ysgrifennydd Preifat y Dirprwy Lywydd
Alun Jenkins, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (eitem 4 ar yr agenda)

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

1.1 Croesawodd y Dirprwy Lywydd Kirsty Williams sydd wedi dychwelyd i'r Pwyllgor; a chroesawu Andrew Weeks a oedd yn cymryd lle Alun Gruffudd. Dymunodd y Dirprwy Lywydd yn dda i Alun Gruffudd yn ei yrfa newydd.

1.2 Diolchodd y Dirprwy Lywydd i Drefnydd y Cynulliad am ei gyfraniad at waith y Pwyllgor ers iddo gael ei ffurfio gan ddymuno'n dda iddo yn ei rôl newydd fel y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd. Rhoes Trefnydd y Cynulliad deyrnged i'r Pwyllgor a'i waith.

**2. Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol**

**(i) BC42-02 (Terfynol) dydd Mawrth 5 Chwefror 2002**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf derfynol. Gan nad oedd unrhyw sylwadau byddent yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi. **Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**(ii) BC56-02 (Drafft) dydd Mawrth 12 Chwefror 2002**

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod nesaf ar eu ffurf derfynol. **Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**3. Materion yn codi (BC56-02 dydd Mawrth 12 Chwefror 2002)**

3.1 **Paragraff 3.1** Dywedodd y Dirprwy Lywydd ei fod wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig; ac at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch y defnydd o'r Weithdrefn Weithredol. Dywedodd mai yn eu dwylo hwy yr oedd y mater bellach. Dywedodd Trefnydd y Cynulliad ei fod yn croesawu hynny, gan mai pwyllgorau pwnc oedd y fforwm priodol ar gyfer craffu ar y defnydd o'r Weithdrefn Weithredol.

3.2 **Paragraff 4.4** Nododd y Dirprwy Lywydd fod Trefnydd y Cynulliad wedi cynnig anfon llythyr at aelodau'r Pwyllgor Busnes ar y defnydd o'r Weithdrefn Weithredol ar gyfer gwahanol orchmynion amaethyddiaeth. Er hynny, nid oedd wedi cael y llythyr. Dywedodd Marion Stapleton y byddai'n ymchwilio i'r sefyllfa. **Camau i'w cymryd: Marion Stapleton.**

**3. Is-ddeddfwriaeth**
**(a) Gorchmynion i'w hystyried**

- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2002 (BC58-02)

- Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Addasu Deddfiadau a Darpariaethau Pellach) (Cymru) 2002 (BC59-02)

- Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen) Addasu Deddfiadau a Darpariaethau Eraill) (Cymru) 2002 (BC60-02)

- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Diwygio) (Cymru) 2002 (BC61-02)

- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2002 (BC62-02)

- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Cyfradd y Disgownt ar gyfer 2002/2003) (Cymru) 2002 (BC63-02)

- The Plant Protection Products (Amendment) Regulations 2002 (BC64-02)

4.1 Ystyriodd Y Pwyllgor Busnes bapurau BC58-02 i BC64-02 a oedd yn rhoi cyngor ar ymdrin â'r Gorchmynion uchod.

4.2 Dywedodd Alun Jenkins fod BC58-02 yn cywiro mân wall drafftio ym mharagraff 11(8) o'r Rheoliadau gwreiddiol. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol pe gellid tanlinellu'r rhesymau dros ddiwygio gorchmynion, yn y dyfodol, yn y Nodyn Esboniadol a'r Memorandwm.

BC58-02 - BC63-02

4.3 Hysbysodd aelodau'r Pwyllgor Busnes y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar y cynigion i beidio ag anfon y Gorchmynion drafft at bwyllgor pwnc a

bu iddynt gytuno y dylent ddilyn y weithdrefn garlam. **Dyfarnodd y Dirprwy Lywydd ar ôl hynny nad oedd angen cyfeirio'r Gorchmynion at bwyllgor pwnc.**

BC64-02

4.4 Cyflwynwyd y Gorchymyn hwn o dan Reol Sefydlog 23, Adran 3 i weithredu rhwymedigaeth y GE. Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Gorchymyn ddilyn y weithdrefn a argymhellwyd sef ei gyflwyno i'r Cyfarfod Llawn heb ddadl.

**(b) Gorchmynion a wnaed o dan y Weithdrefn Weithredol**

BC67-02

4.5 Gan gyfeirio at yr e-bost oddi wrth Ysgrifenyddiaeth y Cabinet at aelodau yn rhestru gorchmynion a wnaed o dan y Weithdrefn Weithredol, dywedodd y Dirprwy Lywydd fod y Cynulliad wedi cytuno ar argymhelliad yr Adolygiad o Weithdrefnau'r Cynulliad y dylai'r Pwyllgor Busnes gael esboniad pryd bynnag y defnyddir y Weithdrefn Weithredol.

BC68-02 & BC69-02

4.6 Nododd y Pwyllgor y papurau hyn, a oedd wedi'u trafod o dan Faterion yn Codi (*gweler Paragraff 3.1)*.

## 5. Cyngor i'r Cynulliad ar weithdrefnau

BC65-02

5.1 Cytunodd y Pwyllgor ar strategaeth y Clerc ar gyfer gweithredu newidiadau i'r Rheolau Sefydlog yn deillio o sêl bendith y Cynulliad i'r Adolygiad o Weithdrefnau'r Cynulliad.

BC66-02

5.2 Ystyriodd y Pwyllgor y papur ar y Weithdrefn ar gyfer Teyrngedau a Mynegi Cydymdeimlad. Cytunwyd ar rai mân ddiwygiadau a châi papur diwygiedig ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf.

## 6. Pwyllgorau

## 7. Busnes arfaethedig

### Busnes yr wythnos hon

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC70-02 a oedd yn rhoi manylion busnes y Cynulliad y cytunwyd arno ar gyfer yr wythnos.

7.2 Dywedodd Trefnydd y Cynulliad y byddai'r Prif Weinidog, yn ogystal â busnes y dydd, yn gwneud datganiad ar ddyrannu cyfrifoldebau i

Ysgrifenyddion y Cynulliad.  Byddai Jenny Randerson, y Gweinidog dros Diwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg, hefyd yn gwneud datganiad ar Brosiect Mentrau Iaith a Theuluoedd.

**Datganiad Busnes Drafft**

7.3  Gofynnodd Jocelyn Davies a fyddai datganiad yn cael ei wneud yn y Cyfarfod Llawn ynghylch adeilad newydd y Cynulliad. Dywedodd Trefnydd y Cynulliad y byddai'n trafod y cais â'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

7.4  Gofynnodd Jocelyn Davies beth fyddai ffurf y cynnig ar gyfer y ddadl ar Dŷ'r Arglwyddi, a oedd wedi'i hamserlennu ar gyfer 7 Mawrth.  Dywedodd Trefnydd y Cynulliad y byddai'n ymgynghori â'r pleidiau eraill ar fformat y cynnig cyn ei gyflwyno.

7.5  Cyngor y Pwyllgor i Drefnydd y Cynulliad ar ei ddatganiad arfaethedig ynghylch trefniadaeth busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau yn dechrau dydd Mawrth 5 Mawrth, dydd Mawrth 12 Mawrth, a dydd Mawrth 19 Mawrth oed y dylai fynd yn ei flaen fel yr amlinellwyd.

**8. Materion a gyfeiriwyd o'r Cyfarfod Llawn**

**9.  Diwygiadau i Reolau Sefydlog**

**10. Dyfarniadau'r Llywydd**

**11. Unrhyw fusnes arall**

11.1  Tynnodd y Dirprwy Lywydd sylw Trefnydd y Cynulliad at nifer o enghreifftiau o derminoleg anghywir mewn llythyr diweddar at yr awdurdodau lleol oddi wrth Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol y Cynulliad.

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**